

Pecyn Recriwtio

Ymddiriedolwr â
Chyfrifoldeb
Arbennig am Gyllid

Cymdeithas
Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir
Benfro



Pembrokeshire
Association of
Voluntary Services

Cymdeithas
Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro



Ein Gweledigaeth

Grwpiau gwirfoddol cynaliadwy a gwirfoddolwyr gweithgar yn creu cymunedau ffyniannus, cynhwysol a chysylltiedig ledled Sir Benfro

Ein Cenhadaeth

Darparu gwasanaethau rhagorol sy'n cysylltu, yn galluogi, yn ysbrydoli ac yn eiriol dros gymunedau, grwpiau, gwirfoddolwyr ac unigolion

Diolch am eich diddordeb yn ein swydd wag bresennol yn PAVS.

Yn y pecyn hwn, fe welwch ragor o wybodaeth am y rôl ac am y mudiad.

Mae copi o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon diweddaraf ar gael ar ein gwefan, neu gallwch anfon e-bost at maudie.hughes@pavs.org.uk i ofyn am gopi digidol.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod y swydd yn fanylach. Mae manylion cyswilt llawn ar gael ar dudalen 7 o'r pecyn hwn.



Rownd-derfynwyr ac Enillwyr Gwobrau yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr Sir Benfro 2025

Hoffech chi gefnogi mudiad sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth a gwneud gwahaniaeth yn Sir Benfro?

Rydym yn chwilio am berson sy'n poeni am ein tîm ac yn mwynhau meithrin perthnasoedd i ymuno â'r Bwrdd.

PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) ar gyfer Sir Benfro. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig.

Rydym yn arbenigwyr ym maes cefnogi unigolion, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol, a mentrau'r trydydd sector sydd, yn eu tro, yn galluogi ac yn cynorthwyo pobl yn ein Sir i gael mynediad at yr wybodaeth, y cymorth, y cyngor neu'r grŵp cymunedol sydd eu hangen arnynt.

Ydych chi'n angerddol am gefnogi pobl, ac a ydych chi'n gallu cydweithio ar draws grwpiau amrywiol i gyd-gynhyrchu atebion i broblemau anodd? Os felly, parhewch i ddarllen...

Mae PAVS yn chwilio am Ymddiriedolwr newydd â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid. Mae hon yn swydd ddi-dâl, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau a thrigolion Sir Benfro.

Gallai'r rôl hon fod yn ddeniadol i rywun sydd â phrofiad o weithio gyda phwyllgorau, ac sy'n deall cynllunio strategol at ddibenion gweithredol ac ariannol, yn ogystal â meddu ar sgiliau gosod cyllidebau. Mae'r rôl yn galw hefyd am ddealltwriaeth o'r safonau llywodraethu ac ariannol a osodwyd gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.

Sut rôl sydd gan Ymddiriedolwr PAVS?

Byddwch yn dod â sgiliau rhyngbersonol cryf i gefnogi'r Bwrdd, a bydd angen i chi allu neilltuo amser i waith PAVS (cyfartaledd o tua dau ddiwrnod y mis) i fynychu Cyfarfodydd Bwrdd, gweithgorau, cyfarfodydd rhanbarthol, cyrsiau, digwyddiadau ac ati. Y cyfnod lleiaf yn y swydd yw tair blynedd, gydag uchafswm o naw mlynedd.

Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda Phrif Swyddog PAVS, i helpu i arwain materion strategol a chynllunio ariannol. Bydd gwir angerdd am waith y trydydd sector yn Sir Benfro yn bwysig, ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r Sir, ei thrigolion, ei lleoedd, ei heriau a'i chyfleoedd.

Mae PAVS yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen. Mae ganddo fwrdd o 10 Cyfarwyddwr / Ymddiriedolwr, gyda thri o'r swyddi hyn – sef y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid – yn cael eu penodi trwy broses recriwtio agored a chyfweliad. Fel Ymddiriedolwr PAVS, bydd lefel benodol o gyfrifoldeb a disgwyliadau yn gysylltiedig â'r rôl, a gellir dod o hyd i'r manylion ar wefan y Comisiwn Elusennau. Disgwylir i chi gefnogi a hyrwyddo gwerthoedd y mudiad, sef:

- Rhagoriaeth
- Cynhwysiant
- Brwdfrydedd
- Arloesedd
- Cydweithio
- Caredigrwydd.

Felly, beth mae PAVS yn ei wneud?

Mae PAVS yn darparu cymorth, arweiniad a chyngor i unrhyw un sy'n ymwneud â mudiadau a gweithgareddau elusennol, gwirfoddol neu fentrau cymdeithasol ledled Sir Benfro.

Mae gwaith PAVS yn amrywiol, o reoli prosiectau a ariennir gan grantiau gyda nodau penodol fel y rhaglen Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach, i gyflawni gweithgareddau cydweithredol fel Hwb Cymunedol Sir Benfro, sy'n cynnig pwynt cyswllt unigol i unrhyw un sydd angen ychydig o gymorth, ond nad yw'n gwybod ble i ddechrau – “atebion yn hytrach na gwasanaethau”.

Mae gweithgareddau eraill ym mhortffolio PAVS yn cynnwys cynnig cymorth i bobl sydd am sefydlu neu ddatblygu menter gymdeithasol, a chefnogi teuluoedd, cymunedau, a busnesau i fod yn Gyfeillgar i bobl â Dementia. Gallwch ddysgu mwy am y prosiectau hyn a llawer iawn mwy ar wefan PAVS.

Mae PAVS hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ac yn chwarae rhan allweddol wrth roi llais i'r sector yn Sir Benfro, ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r heriau a'r cyfleoedd yn ein cymunedau lleol.



Sut mae'r dyfodol yn edrych?

Mae'r Bwrdd yn dymuno croesawu unigolyn a fydd yn gwreiddio ac yn monitro cyflawniad gweledigaeth a blaenoriaethau PAVS, fel y nodir yn ein strategaeth bum mlynedd, ac yn chwarae rhan weithredol wrth gryfhau a mireinio ein dulliau gweithredu a'n gweithgareddau.

Fel Ymddiriedolwr ar y Bwrdd, byddwch yn cefnogi PAVS i gyflawni ei flaenoriaethau strategol, drwy hwyluso a galluogi'r trydydd sector i wneud yr hyn y maent yn anelu ato, tra hefyd yn deall ac yn hyrwyddo gwirfoddoli er mwyn gwella bywyd a lles y gymuned. I wneud hyn, nid yn unig y mae PAVS yn datblygu'r endid rhanbarthol, ond mae hefyd yn ceisio datblygu perthnasoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ac yn gweithio i gynyddu proffil ei aelodaeth.

A oes gennych chi ddiddordeb?

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl neu i fynegi diddordeb mewn ymuno â'r bwrdd, anfonwch e-bost at maudie.hughes@pavs.org.uk neu ffoniwch 01437 769422.

Os hoffech chi siarad â Chadeirydd y Bwrdd, Claire Incledon, i gael mewnwelediad pellach, gellir trefnu hynny hefyd.

Rhagor o Wybodaeth Gefndirol

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) ar gyfer Sir Benfro, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau i gefnogi datblygiad grwpiau gwirfoddol a chymunedol ledled y Sir.

Mae'r Gymdeithas wedi'i sefydlu fel Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Sir Benfro. Mae'n hyrwyddo unrhyw ddiben elusennol er budd cyhoeddus y gymuned ac, yn benodol, hyrwyddo addysg, diogelu iechyd a lleddfu tlodi, trallod a salwch. Mae ei haelodaeth yn cynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol(a elwir gyda'i gilydd yn "y trydydd sector") sy'n gweithredu yn Sir Benfro. Yn ei gwaith, mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo ac yn trefnu cydweithredu, er mwyn cyflawni'r nodau hyn ac, at y diben hwnnw, mae'n dod â chynrychiolwyr o fudiadau trydydd sector ac awdurdodau statudol yn Sir Benfro at ei gilydd.

Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru[1], mae PAVS yn derbyn elfen o gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i:

- darparu cymorth datblygu a chyllido cyffredinol i grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol
- darparu gwasanaeth gwirfoddoli cynhwysfawr
- cefnogi ymgysylltiad y sector â phartneriaethau darparu gwasanaethau a chynllunio strategol lleol a rhanbarthol

Mae PAVS hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid statudol a phartneriaid o'r trydydd sector, i roi strategaeth atal ac ymyrryd yn gynnar ar waith, sy'n anelu at greu cymunedau gweithgar, dyfeisgar, cysylltiedig, cynaliadwy a charedig. O ganlyniad i hyn, mae PAVS yn cyflogi tîm o Gysylltwyr Cymunedol sy'n gweithio mewn ardaloedd lleol, yn ogystal â chynnig cymorth ar gyfer gwirfoddoli anffurfiol a gweithredu dan arweiniad y gymuned. Mae PAVS yn bartner arweiniol yn Hwb Cymunedol Sir Benfro amlasiantaethol, a lansiwyd yn ffurfiol yn ei ffurf bresennol yn gynnar yn 2022.

Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn cyflogi 28 o bobl (ar sail llawn amser a rhan amser). Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig, gydag incwm blyneddol o tua £1.8 miliwn, sy'n cynnwys cymysgedd o gyllid cyfyngedig ac anghyfyngedig o amrywiol ffynonellau.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am genhadaeth, gwerthoedd, amcanion strategol a gweithgareddau'r Gymdeithas yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, a gyflwynir ynghyd â'r Cyfrifon Blyneddol.

[1] Partneriaeth Cymru gyfan sy'n cynnwys 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)



Y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 10 ymddiriedolwr, a chaiff 7 ohonynt eu hethol gan aelodau PAVS yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Caiff swyddi'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid eu llenwi drwy broses recriwtio agored. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob 6-8 wythnos, yn unol ag amserlen flynyddol o gyfarfodydd a blaenraglen waith.

Rôl y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Rhaid i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr weithredu er budd gorau PAVS bob amser, gan ymarfer yr un safon o ddyletswydd gofal ag y byddai person darbodus yn ei gymhwyso wrth ofalu am faterion rhywun y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Rhaid i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr weithredu fel grŵp ac nid fel unigolion – gan weithio gyda'i gilydd i sicrhau llywodraethu effeithiol a chyfeiriad strategol clir.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwr PAVS yw:

- Sicrhau bod y mudiad yn defnyddio ei adnoddau i gyflawni ei amcanion yn unig
- Sicrhau sefydlogrwydd a chynnaladwyedd ariannol PAVS
- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd a chyfrannu'n llawn at drafodaethau'r Ymddiriedolwyr, boed wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Gweithio gyda thîm staff PAVS, i sicrhau bod y Gymdeithas yn parhau i gyflawni ei hamcanion, yn seiliedig ar y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Bwrdd
- Cyfrannu arbenigedd unigol perthnasol i gefnogi amcanion yr Elusen
- Hyrwyddo gwaith yr Elusen a mynychu digwyddiadau PAVS, i ddathlu gwaith grwpiau gwirfoddol a chymunedol, a gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol uchod, dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddynt i helpu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau cadarn. Gall hyn gynnwys arwain trafodaethau, nodi materion allweddol, cynnig cyngor ac arweiniad ar fentrau newydd, a gwerthuso neu gynnig cyngor ar feysydd eraill lle mae gan yr Ymddiriedolwr arbenigedd penodol.



Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid

- Teitl:** Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig (TSR) am Gyllid – Bwrdd Ymddiriedolwyr / Cyfarwyddwyr PAVS
- Tâl:** Dim tâl (ad-delir costau teithio a mân dreuliau rhesymol yn unig)
- Ymrwymiad:** Cyfartaledd o 1 diwrnod bob chwarter, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd Bwrdd, gweithgorau, cyfarfodydd rhanbarthol, cyrsiau ac ati., a all fod wyneb yn wyneb neu ar-lein gan ddefnyddio Teams neu Zoom
- Isafswm cyfnod swydd:** 3 blynedd (yn amodol ar adolygiad perfformiad)
- Uchafswm cyfnod swydd:** 9 mlynedd (yn dibynnu ar ailbenodiad bob 3 blynedd)

Prif gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid

- Goruchwyllo sefyllfa ariannol yr Elusen / Cwmni
- Sicrhau bod Bwrdd PAVS yn cyflawni ei gyfrifoldebau ariannol yn unol â fframweithiau rheoleiddio perthnasol a datganiadau o arfer a argymhellir
- Cynorthwyo'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i bennu cyfeiriad strategol y Gymdeithas, gan sicrhau bod adnoddau priodol ar gael, bod amcanion clir yn cael eu gosod, a bod trefniadau monitro digonol ar waith
- Sicrhau bod cynllun ariannol hirdymor ar waith i fodloni cynlluniau strategol PAVS
- Arwain y gwaith o oruchwyllo meysydd gwaith penodol, fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd

Dyletswyddau penodol yr Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid

- Cyflwyno adroddiadau cryno a chlir i'r Bwrdd ar faterion ariannol, fel y gall y Bwrdd wneud penderfyniadau cadarn
- Trefnu ac arwain cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cyllid, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar bob mater yn ymwneud â chyllid ac archwilio
- Cynorthwyo'r Prif Swyddog a staff uwch i reoli cynllunio ac adrodd ariannol yr Elusen
- Sicrhau bod adnoddau a rheolaethau digonol ar waith i oruchwyllo a monitro rheolaeth ariannol yr Elusen
- Cysylltu â'r Archwilydd Allanol i gyflwyno'r Cyfrifon yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, gan dynnu sylw at bwyntiau pwysig, boed hynny mewn adroddiad ysgrifenedig neu ar lafar

Nodweddion allweddol yr Ymddiriedolwr â Chyfrifoldeb Arbennig am Gyllid

- Profiad helaeth o reolaeth ariannol ar lefel Bwrdd, yn y trydydd sector yn ddelfrydol
 - Sgiliau cynllunio ariannol strategol a busnes eang, yn seiliedig ar brofiad blaenorol ar lefel uwch
 - Y gallu i gynorthwyo'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog gyda materion ariannol, gan gynnwys y gallu i ddadansoddi data ariannol cymhleth, asesu canlyniadau ariannol penderfyniadau, a chyflwyno opsiynau / argymhellion i'w hystyried
 - Gonestrwydd a didueddrwydd, a'r gallu i ennill hyder cyd-ymddiriedolwyr
- Er nad yw'n hanfodol, byddai cymhwyster ariannol a gwybodaeth am Ddatganiad o Arfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau o fantais

Rôl Bersonol Aelodau'r Bwrdd

Fel aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr PAVS, bydd disgwyl i chi:

- Cefnogi nodau strategol, amcanion a gwerthoedd y mudiad, fel y nodir yn ei gyfansoddiad a dogfennau perthnasol eraill.
- Defnyddio eich sgiliau a'ch profiad personol mewn awdurdod i wneud penderfyniadau.
- Rhannu cyfrifoldeb am bob penderfyniad a wneir gan y Bwrdd
- Rhoi blaenoriaeth i fynychu cyfarfodydd Bwrdd.
- Anfon ymddiheuriadau os na allwch fynychu.
- Paratoi ar gyfer y cyfarfod drwy ddarllen y papurau a baratowyd.
- Parchu cyfrinachedd yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd.
- Derbynn eich bod chi yno fel unigolyn a bod eich cyfrifoldeb pennaf i'r Bwrdd.
- Bod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr Elusen ac fel Cyfarwyddwr Cwmni.



Cymdeithas Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)



PAVS - Cymdeithas Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro



@pembaspavs



Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

36 - 38 Stryd Fawr
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 2DA

Ffôn: 01437 769422

E-bost: ymholiadau@pavs.org.uk

Gwefan: www.pavs.org.uk



Pembrokeshire
Association of
Voluntary Services

Cymdeithas
Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro